# Mae'r adeilad hon yn rhestredig o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

## Adeilad Rhestredig: Adroddiad am Adeilad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod :** | Sir Ceredigion | **Rhif Cyfeirnod :** | 87822 |
| | | **Dyddiad Dynodi :** | 08 Mar 2021 |
| **Cymuned :** | Llanfair Clydogau | **Dyddiad Diwygio :** | |
| **Ardal :** | Pentrefelin | **Dyddiad Dadrestru :** | |
| | | **Cyfeirnod Grid :** | 261018,248882 |
| | | **Gradd :** | II |
| **Enw :** | Melin Glanffrwd | | |
| **Rhif, Enw, Stryd :** | | | |
| **Ochr o'r stryd :** | | | |

**Lleoliad :**

Mae'r felin ar lan Ddwyreiniol Ffrwd Cynon, ac yn ei thir ei hun ar ochr Ogleddol isffordd o Gellan i Bentrefelin, tua 0.5km i'r Dwyrain o Gellan.

**Hanes :**

Yn ei ffurf bresennol, sefydlwyd melin wlân Gwar-ffrwd ym 1884 gan Thomas Jones a pharhaodd i fod ym mherchnogaeth y teulu Jones trwy gydol y cyfnod y bu'n gweithio. Ynni dwr oedd yn gyrru'r felin, gydag ychwanegiad peiriant diesel ar ôl 1942. Ym 1948 dywedir bod peirianwaith y felin yn cynnwys dau wydd, peiriant cardio, peiriant nyddu â llaw, hen genglwr edau groes, cenglwr llaw a pheiriant pannu wedi'i wneud gartref. Prif gynnyrch y felin oedd gwlanen a brethyn cartref, er erbyn 1947 roedd wedi'i gyfyngu i edafedd. Yn dilyn llif ym 1948 dirywiodd y cynhyrchu'n gyflym ac roedd wedi dod i ben yn gyfan gwbl erbyn 1952. Ym 1965 prynwyd y felin gan Margaret Bide, a adnewyddodd y felin rhwng 1987 a 1992 gan fabwysiadu'r enw Melin Glanffrwd, ar ôl enw pandy a oedd ar y safle yn y 18fed ganrif. Yn ystod yr adnewyddu cafodd y to ei ail-doi, gosodwyd ffenestri newydd, codwyd y llawr coblog gwreiddiol a gosodwyd slabiau llechfaen yn eu lle (llawer yn cael eu hail-ddefnyddio a'r mwyafrif o Fferm Stradmore, Cenarth), ac ail-adeiladwyd y llawr gwaelod gyda grisiau newydd, llawr estyll a distiau. Mae peth o'r peirianwaith yn perthyn i gyfnod cynhyrchu gwlân Jones, gyda rhai eitemau eraill, fel y jac nyddu ar y llawr gwaelod, wedi'u prynu o rywle arall.

**Tu allan :**

Amrediad 2-lawr 3-ffenestr o gerrig rwbel gyda chonglfeini mwy, triniaethau brics a tho llechi wedi'i adnewyddu. Mae i'r tu blaen Deheuol ffenestri pennau-cambr gyda ffenestri casment paenau-bach 2-olau wedi'u hadnewyddu yn yr agoriadau gwreiddiol, a drysau dwbl wedi'u bordio i'r Chwith. Mae i'r wal gefn, ar lan Ffrwd Cynon, ffenestri sefydlog mewn agoriadau cynharach, o dan linell o ddraeniau bargodol ar lefel y llawr gwaelod. Mae'r olwyn ddwr wedi'i gwahanu oddi wrth dalcen ty'r llawdde (Dwyrain), lle mae ffenestr llawr-cyntaf sengl 2-olau debyg i'r tu blaen, yn cymryd lle mynedfa llawr-cyntaf a arferai fod yno. Mae'r olwyn o fewn twll olwyn wedi'i leinio â cherrig sydd wedi'i ail-adeiladu ac olwyn dros y rhod o haearn bwrw yw hi wedi'i chastio gan y Brodyr Ellis o Aberystwyth, a'i hatgyweirio gan Gwmni Peirianyddol Outlane o Huddersfield. Yn y talcen ty ar y chwith (Gorllewin) mae grisiau cerrig allanol a ychwanegwyd ddiwedd yr

20fed ganrif gan ddefnyddio deunyddiau ail-law, yn arwain i fynedfa llawr cyntaf, hwnnw hefyd yn fewnosodiad modern a brics wedi'u harbed ac wedi'u defnyddio i wneud y pen cambr.

**Tu mewn :**

Gwaith adfer yw'r rhan fwyaf o fanylion y tu mewn. Mae llawr llechi yn cymryd lle'r cobls gwreiddiol, a thano mae'r echelyddion ar gyfer y peirianwaith. Cynllun yw hwn a gyflwynwyd yn ystod yr adnewyddu, gan fod yr echelyddion gwreiddiol uwchben. Mae'r echelyddion yn newydd ac arbedwyd olwynion y pwli o iardiau sgrap yn ystod yr adnewyddu. Mae i'r llawr cyntaf estyll llawr a distiau newydd, ac i gyrraedd yno mae grisiau coes-ci modern. Yn y llawr uchaf mae to 3-bae gyda chyplau dist-coler wedi'u llifio, ac mae o dan y to wedi'i blastro. Mae i bob ffenestr gaeadau panel pren (fielded-panel).

Mae peirianwaith ar ddau lawr y felin. Ar y llawr gwaelod mae peiriannau cardio, ar ffurf pigwr wedi'i gastio gan Rhodes &Son o Hope Foundry, Leeds, sgrifellwr a distyllydd, wedi'u gwneud tua 1860 a'u prynu ar gyfer y felin yn 1884. Mae'r peirianwaith i gyd wedi'i adnewyddu. Yn y llawr uchaf mae gwydd i weu rygiau, o darddiad anhysbys, a jac nyddu o felin wlân yn Aberarth.

**Rhestredig :**

Wedi'i rhestru ar gyfrif ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig fel adeilad wedi goroesi o'r 19eg ganrif sy'n gysylltiedig â diwydiant gwledig pwysig yng Nghymru ac er gwaethaf y ffaith fod rhai newidiadau ac ychwanegiadau annilys, mae peth o'r peirianwaith a'r olwyn ddwr wreiddiol yno o hyd. Mae gwerth grwp i'r felin gyda thy'r felin cyfagos ac eitemau rhestredig eraill ym Mhentrefelin.

**Cyfeiriadau**

Ni chofnodwyd unrhyw un

**Darddiadau**

Ni chofnodwyd unrhyw un